

# Arddangosiad e-Lyfrgell Iechyd GIG Cymru

**Archwilio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn yr e-adnoddau cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru.**

09AM

## *Croeso i e-Lyfrgell Iechyd GIG Cymru*

*Ymunwch â'r daith hon, a gyflwynir gan Bex o dîm yr e-Lyfrgell, wrth inni ddangos gwefan yr e-Lyfrgell ichi, gan drafod pynciau megis y canlynol:*

*Sut i ddod o hyd i wefan yr e-Lyfrgell*
*Sut i ddod o hyd i'r hyn rydych chi'n chwilio amdano*
*Sut i fewngofnodi pan fyddwch ar rwydwaith GIG Cymru a phan na fyddwch ar rwydwaith GIG Cymru*

*Cwestiynau am ddefnyddio gwefan yr e-Lyfrgell. Sicrhewch eich bod yn eu gofyn, neu cyflwynwch eich cwestiynau cyn y sesiwn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hateb*

10AM

## *Dod o hyd i wybodaeth: cyflwyniad i adnoddau gwybodaeth a chwilio am lenyddiaeth*

Ymunwch â Pauline Goodlad (Llyfrgellydd yn Llyfrgell John Spalding, Ysbyty Maelor Wrecsam) a Rhys Whelan (Rheolwr Gwasanaethau'r Llyfrgell yn Ysbyty Treforys, Bae Abertawe) wrth iddynt roi cyflwyniad byr i adnoddau gwybodaeth a chwilio am lenyddiaeth.
Amcanion:
·Dod o hyd i adnoddau priodol i chwilio am bynciau
·Chwilio am wybodaeth a thystiolaeth trwy ddefnyddio geiriau allweddol a gweithredwyr Boole
·Sut y gall gwasanaethau'r llyfrgell eich cefnogi i ddod o hyd i wybodaeth

11.30AM

## *BMJ ac anghydraddoldebau iechyd – BMJ Journals, BMJ Best Practice*

*Bydd y weminar hon yn dechrau trwy roi trosolwg ichi o BMJ Journals, fel y gallwch wneud y gorau o'ch mynediad. Bydd hefyd yn dangos rhai o wefannau cyfnodolion blaenllaw BMJ ac yn clustnodi curadu erthyglau sy'n amlygu'r gwahaniaethu a'r anghydraddoldebau iechyd sy'n ymwneud â hil ac ethnigrwydd y mae cleifion a meddygon wedi'u profi.*

*Yna bydd Dr. Kieran Walsh, Cyfarwyddwr Clinigol BMJ, yn disgrifio pwysigrwydd cydafiacheddau yng nghyd-destun anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol a'r hyn y mae BMJ yn ei wneud i wella gofal cleifion sydd â chydafiacheddau.*

1PM

## *Clinical Key – Datblygu ymdrechion amrywiaeth yn yr amgylchedd clinigol: y 'pam' a'r 'sut'*

Ymunwch â Gladys Lopez o Elsevier wrth iddi siarad am y canlynol:

- ·Diffinio amrywiaeth a chynhwysiant
- ·Dod o hyd i'r 'pam' yn yr amgylchedd clinigol
- ·Dod yn ymwybodol o'r 'sut' trwy ddefnyddio offer sydd ar gael yn y llyfrgell
- ·Mae fy ngweithredoedd yn cyfrif… Y camau nesaf

2.15PM




## *Risgiau mewn beichiogrwydd sy'n gysylltiedig ag ethnigrwydd a hil (archwilio'r e-Lyfr: High-Risk Pregnancy from CUP)*

Ymunwch â Caz Kerbyson o Wasg Prifysgol Caergrawnt wrth inni archwilio:

- Sut i ddod o hyd i 'High-Risk Pregnancy' a chael mynediad ato yn e-Lyfrgell GIG Cymru
- Risgiau beichiogrwydd sy'n gysylltiedig â hil, risg o afiechyd a gwahaniaethau o ran hil ac ethnigrwydd wrth fesur beichiogrwydd
- Ymarferoldeb 'High-Risk Pregnancy', uchafbwyntiau'r e-adnodd gan gynnwys cynnwys diweddar a chynnwys fideo

***MAE'R HOLL SESIYNAU YN CAEL EU RECORDIO, FELLY OS YW'CH CALENDR PRYSUR O YMRWYMIADAU YN GOLYGU NA ALLWCH YMUNO, PEIDIWCH Â PHOENI, ACHOS TRWY GOFRESTRU EICH DIDDORDEB, BYDDWCH YN DERBYN COPI O'R RECORDIAD OS NA ALLWCH FYND I'R DIGWYDDIAD.***